CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

CYLLIDEB 2010/11

Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad

CEFNDIR

1. Mae proses gynllunio cyllideb yr awdurdod lleol yn Wrecsam, fel mewn mannau eraill, yn gofyn barnu'n gynnar beth fydd rhagolygon cyllideb y Cyngor ar sail dangosyddion economaidd cenedlaethol a chyfansymiau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer gwariant awdurdodau lleol.

2. Cytunwyd ar broses gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2010/11 ym mis Ebrill 2009 ac, yn dilyn adolygiad o ragolygon ariannol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2009, gofynnwyd i adrannau gwasanaeth nodi arbediadau gwasanaeth o 3% (ysgolion 1.5%) a rhoi manylion o unrhyw bwysau "eithriadol" disgwyliedig.

3. Datblygwyd y cynlluniau ariannol tymor canolig gan ddefnyddio'r paramedrau canlynol:

   - Cynnydd tybiedig o 3.6% mewn gwariant arian parod yn 2010-11, yn cael ei ddilyn gan gynnydd arian parod o 0% yn 2011-12 a 2012-13.

   - Amcangyfrif o dybiaethau chwyddiant:

     - Codiad cyflog athrawon o 2.3% yn 2010-11, 1% yn 2011-12 a 2012-13.
     - Codiad cyflog heblaw athrawon o 0% yn 2010-11, ac 1% yn 2011-12 a 2012-13.
     - Codiad prisiau o ryw 2% yn 2010-11, 2.5% yn 2011-12 a 3% yn 2012-13.
   - Y bydd y grant Cytundeb Gwella heb ei neilltuo'n cael ei dderbyn ymhob un o'r tair blynedd.

4. Defnyddiwyd y cynlluniau cyllideb tair blynedd fel sail i gyfrifo'r dangosyddion darbodus ar sail y disgrifiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Bydd angen adolygu'r cynllun ariannol tymor canolig yn gyfnodol.

Adolygiad o'r Flwyddyn Gyfredol 2009/10

5. Cyfyngwyd cyllideb y flwyddyn i £200,798,095 mewn arian parod.

6. Arolygwyd a rheolwyd y gyllideb yn agos yn ystod y flwyddyn yn unol â gweithdrefnau cymeradwy'r Cyngor. Nodwyd nifer o bwysau gwasanaeth a chostau uwch yn gynnar yn y flwyddyn ariannol a chytunodd y Bwrdd Gweithredol y dylai swyddogion gymryd camau i reoli gwariant ac i gadw gwariant gwasanaethau o fewn y cyfansymiau cyllideb arian cyfyngedig cymeradwy.

7. Bydd holl gyllidebau'n dal i gael eu harchwilio'n ofalus yn unol â'r trefnau a gytunwyd a bydd y gwir alldro'n cael ei hysbysu yn yr haf. Yn unol â rheolau cyllidebu arian cyfyngedig, gall unrhyw orwario neu danwario gael ei ddwyn ymlaen i 2010/11.

Dyfarniad Cyllid y Cynulliad

8. Mae'r dyraniad grant i awdurdodau unigol yn dibynnu ar fformiwla'r asesiad o wariant safonol (SSA). Ar gyfer 2010/11 nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r fformiwla.

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fanylion ei setliad cyllid dros dro i awdurdodau lleol ar 13 Hydref 2009. Rhoddodd y setliad dros dro gynnydd grant o 2.1% i awdurdodau lleol ar gyfartaledd, oedd y cynnydd isaf ers datganoli. O dderbyn cwymp cyllid cyhoeddus roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y byddai llawer gwaeth yn dilyn rhwng 2011 a 2014. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei setliad cyllid terfynol ar gyfer 2010/11 ar 8 Rhagfyr 2009 ac roedd yr un fath â setliad dros dro i bob diben.

10. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i gyfyngu neu roi terfyn uchaf ar ofyniad cyllideb unrhyw awdurdod lleol, y mae'n ystyried sy'n ormodol. Ni wnaeth y Gweinidog unrhyw gyhoeddiad cysylltiedig â thybiaethau ynghylch gwariant y Cyngor ar gyfer 2010/11. Daeth asesiad o wariant safonol y Cyngor, yr asesiad tybiannol at ddibenion dosbarthu grant o angen y Cyngor i wario ar ei wasanaethau, i £208,588,671.

Cyllideb 2010/11

11. Adeiladwyd cyllideb y flwyddyn nesaf, ,yn ôl y braslun ar dudalen (vii), yn unol â'r fframwaith a gytunwyd gan y Cyngor. Addaswyd y gyllideb yn y flwyddyn gyfredol (h.y. y gyllideb arian cyfyngedig wedi'i diwygio ar gyfer hawl trosglwyddo arian) o ran cost chwyddiant, ymrwymiadau anochel, pwysau gwasanaeth ac arbediadau.

12. Amcangyfrif o gyfanswm y gwariant cyllid clir yw £208,296,174 ac mae'n cynrychioli cynnydd o £7,255,909 (3.61%) o gyllideb gyllidol glir eleni wedi'i haddasu. Mae tudalen (vii) hefyd yn dangos gofyniad cyllideb y Cyngor o £206,931,607.

13. Mae'n ofyniad Deddf Llywodraeth Leol 2003 fy mod yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddiben cyfrifo'r gofyniad cyllideb clir. Felly, dylwn dynnu eich sylw at nifer o feysydd risg allweddol a nodais yn y gyllideb a sut i reoli'r rhain. Caiff y rhain eu hamlinellu ar dudalen 24. Bydd materion yn ymwneud â'r risgiau allweddol hyn yn cael eu hysbysu i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn a ddaw yn ôl yr angen fel rhan o drefnau arolygu a rheoli'r gyllideb.

Adnoddau wrth Gefn a Gweddillion

14. Mae ar awdurdod lleol angen gweddillion gweithio darbodus i gynnal llif arian digonol, yn enwedig yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol cyn derbyn incwm treth y cyngor, ac ar gyfer gwariant annisgwyl.

15. Nid oes unrhyw gyfraniadau arfaethedig at weddillion ar gyfer 2010/11. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod y gweddillion ac adnoddau wrth gefn yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw a strategaeth ariannol tymor canolig yr awdurdod.

16. Mae peth ansicrwydd yn dal yn y gyllideb sy'n gysylltiedig â chodiadau cyflog sydd eto i'w setlo a hefyd effaith gostyngiad cyfraddau llog ar gyllideb incwm o fuddsoddiadau'r Cyngor.

17. Mae dadansoddiad o amcangyfrif o adnoddau wrth gefn a gweddillion allweddol y Cyngor a glustnodwyd am y flwyddyn a ddaw fel a ganlyn:

	Gwir Weddill ar 1 Ebrill 2009 £k	Amcangyfrif o'r Gweddill ar 1 Ebrill 2010 £k	Symudiad yn y flwyddyn £k	Amcangyfrif o'r Gweddill ar 31 Mawrth 2011 £k
Gweddill Cronfa'r Cyngor	6,952	6,513	0	6,513
Gweddillion Ysgolion	1,975	1,975	0	1,975
Adnoddau wrth Gefn y Gwasanaethau	1,144	497	(312)	185
Adnoddau Eraill wrth Gefn a Glustnodwyd	12,603	11,082	(1,800)	9,282
Cyfanswm Gweddillion ac Adnoddau wrth Gefn	**22,674**	**20,067**	**(2,112)**	**17,955**

18. Seiliwyd yr amcangyfrif o'r gweddillion ar 1 Ebrill 2010 yn y tabl uchod ar yr amcangyfrifon gorau ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mae'r symudiad yng ngweddill Cronfa'r Cyngor yn cynnwys y sefyllfa a hysbyswyd yn y flwyddyn gyfredol (CFPO/04/10). Bydd y sefyllfa a hysbyswyd yn newid yn dilyn cau cyfrifon 2009-10 a bydd yn cael ei hysbysu i'r Aelodau fel rhan o'r adroddiad alldro ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. O'r symudiad arfaethedig yn y flwyddyn 2010/11 ar weddillion gwasanaethau o £312k, ni fydd dim yn cael ei ddefnyddio i dalu am wariant rheolaidd.

19. Nid yw'r dadansoddiad uchod yn tybio unrhyw ddefnydd o weddillion cyffredinol ar gyfer cyflogau dyledus yn dilyn yr adolygiad Statws Unigol a Chyflog Cyfartal. Os bydd y rhain neu unrhyw ymrwymiadau eraill yn mynd uwchlaw'r dyraniadau a glustnodwyd yna mae'n amlwg y byddai galw ar y gweddillion cyffredinol hyn.

Incwm

20. **Grant Cymorth Incwm Cyllid –** gosodwyd cyfran y Fwrdeistref Sirol o'r Grant Cynnal Cyllid terfynol ar.

21. **Trethi Busnes –** Mae'r Cynulliad wedi pennu treth fusnes o 40.9c yn y bunt ar gyfer 2010/11. Cyfran y Fwrdeistref Sirol o incwm ardreth annomestig genedlaethol yn 2010/11 yw £37,293,748.

22. **Grant Cytundeb Gwella –** Dosbarthwyd y grant hwn i holl awdurdodau lleol ar sail asesiadau cyfredol o wariant safonol a chyfran y Cyngor hwn yw £1,284,567.

23. In Fel cyfanswm bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyffredinol o £163,692,584 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Treth y Cyngor

24. Ar ôl cyfrif y grantiau cyffredinol a chyfraniad gweddillion, mae gweddill gwariant clir o £44,603,590 yn aros i'w gyllido gan drethdalwyr y Cyngor.

25. Y bwriad yw talu fel traul arbennig rhan o gost goleuo palmentydd y pedair ardal gymunedol yn y dref (£4.04 ar fand D).

26. Ar ôl addasu am dreuliau arbennig o £64,805 y gweddill i gael hyd iddo fel treuliau cyffredinol oddi wrth drethdalwyr y Cyngor yw £44,538,785.

27. Cytunwyd ar gyfrifiad sail treth y cyngor gan y Bwrdd Gweithredol ar 17 Tachwedd 2009 ar gyfer 2010/11, fel 51,614 eiddo cywerth â band D ar ôl cyfrif:

    - gostyngiadau band i bobl anabl
    - eiddo a eithriwyd
    - gostyngiadau deiliaid unigol
    - gostyngiadau dwbl ar eiddo gwag
    - ffactorau i adlewyrchu'r tâl cymharol ar wahanol fandiau
    - amcangyfrif o'r gyfradd gasglu
    - cyfraniadau yn gyfnewid oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn

    Ffurfiwyd y sylfaen drethi at ei gilydd o'r un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal gymunedol ac mae'r "cywerthoedd band D" yn cael eu dangos ar dudalen (viii).

28. Bydd rhannu gweddill y gwariant clir (£44,538,785) â'r sylfaen drethi o 51,614 yn rhoi £862.92 i'w dalu gan aelwyd sy'n talu'n llawn ar gartref a brisiwyd fel band D. Am eiddo band A y taliad yw chwe rhan o naw o'r ffigur hwn trwodd i eiddo band î lle mae'r taliad yn un ar hugain rhan o naw o'r ffigur band D. Mewn llawer achos bydd y ffigurau hyn yn cael eu haddasu gyda gostyngiadau anabl ac eraill ac, wrth gwrs, budd-dal treth cyngor.

29. Mae tudalen (viii) yn cyflwyno cyfradd treth y cyngor ar gyfer y trethdalwr band D yn ardal pob cyngor cymuned ac mae'n dangos, ar ôl cynnwys hawl awdurdod yr heddlu i gyfran o'r dreth, mai cyfanswm treth y cyngor ar gyfartaledd ar eiddo band D yn 2010/11 yw £1,100.55.

Dangosyddion Darbodus

30. Mae Cod Ymarfer Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn gofyn bod y Cyngor yn mabwysiadu dangosyddion, sy'n dangos bod cynlluniau cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Caiff y dangosyddion darbodus eu hamlinellu ar dudalen 25.

CASGLIAD

31. Nid yw setliad ariannol y Cynulliad ar gyfer 2010/11 ond yn rhoi'r gallu i'r Cyngor bennu cyllideb sy'n cynnwys ymrwymiadau anochel a phwysau gwario cyfyngedig ar wasanaethau. Fodd bynnag, gwnaed pob ymdrech eto i warchod gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ysgolion wrth baratoi'r gyllideb.

32. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod y Cyngor yn cadw golwg ar ei gyllideb a chymryd camau priodol. Belly, bydd angen arolygu a rheoli'r gyllideb yn agos yn ystod y flwyddyn a bydd angen adolygu'r sefyllfa ariannol yn barhaol.

33. Yn olaf, rwy'n dal yn ddiolchgar iawn i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth, cydweithrediad a gwaith caled wrth gynorthwyo paratoi'r gyllideb hon.

M S OWEN
PRIF SWYDDOG CYLLID A PHERFFORMIAD

COD YMARFER CYFRIFYDDU GWERTH GORAU

1. Ailffurfiwyd y cyllidebau arian cyfyngedig yng ngholofn (i) ar dudalen (vii) i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP). Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar gostau canolog a gwasanaethau cefnogi.

2. Bu'n rhaid codi'n llawn am gostau cynnal canolog ac adrannol ar y gwasanaethau y maent yn eu cefnogi. Caiff hyn ei adlewyrchu trwy ychwanegu colofn (j) ar dudalen (vii), ac yng nghorff tudalennau'r gyllideb.

3. Dylid nodi y codwyd yn llawn ar adrannau Cyfreithiol a Democrataidd, Adnoddau Dynol, Cyllid a Pherfformiad, Chyfundrefnau Gwybodaeth, Trwsio a Chynnal ac Ymgynghoriaeth Eiddo / Rheoli Asedau / Cludiant Ysgol o fewn Cludiant a Rheoli Asedau a'u bod yn dangos cyllidebau clir o ddim.

4. Fel rhan o'r Cod, ad-drefnwyd y costau canolog fel a ganlyn:

   - Craidd Corfforaethol a Democrataidd (gan gynnwys Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth Gorfforaethol)
   - Costau Annosbarthedig (gan gynnwys Costau Gwasanaethu Blaenorol a chostau cysylltiedig â chyfrannau diddefnydd o gyfleusterau TG)
   - Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd (gan gynnwys costau casglu Treth y Cyngor, Crwneriaid, Cofrestru Etholiadol ac ati)
   - Incwm a Gwariant Gweithredu Arall (gan gynnwys ardollau ar gyrff eraill a chodi cyfalaf).

5. Mae'n amlwg bod y rhain yn newidiadau arwyddocaol dros ben ond mae grym gwario sylfaenol gwasanaethau'n aros yn union fel y cymeradwywyd gan y Cyngor. Un o brif ddibenion y newid yw caniatáu mwy o gyffelybrwydd rhwng awdurdodau yn y dyfodol.

6. Yn ystod 2006/07 ffurfiwyd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc trwy uno'r Adran Addysg gydag elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant. Rhannwyd y gwasanaeth yn dair rhan sef, Dysgu a Chyflawniad, Atal a Chynhwysiad a Diogelu a Chefnogi. Caiff dalennau cyllideb Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant eu dangos ar dudalennau 21 – 23.

Cyllideb Gyllidol 2010-11

		(a) Cyllideb Arian Cyfyngedig 2009-10	(b) Gweithredol Trosglwyddiadau	(c) Newidiadau Cyllideb	(d) Cyllideb Arian Cyfyngedig 2009-10 ar ôl Trosglwyddiadau	(e) Chwyddiant	(f) Ymrwymiadau Anochel	(g) Pwysau Gwasanaeth Ychwanegol	(h) Arbediadau Gwasanaeth	(i) Cyllideb Arian Cyfyngedig 2010-11	(j) Cyllideb 2010-11 ar ei Newydd Wedd
		£	£	£	£	£	£	£	£	£	
1	Yr Amgylchedd	17,120,347			17,120,347	315,482	1,370,528	100,000	(512,000)	18,394,357	20,418,384
2	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	36,389,072	678,234		37,067,306	609,131	500,000	700,000	(345,000)	38,531,437	40,488,300
3	Cronfa Gyffredinol Tai	1,261,490			1,261,490	34,948		160,000	(37,500)	1,418,938	3,562,674
4	Diogelu'r Cyhoedd	2,409,351			2,409,351	22,282			(71,500)	2,360,133	2,724,132
5	Dysgu a Chyflawniad (ysgolion)	66,227,044	476,975	(280,464)	66,423,555	1,360,319				67,783,874	67,783,874
6	Dysgu a Chyflawniad (heblaw ysgolion)	4,059,789		(9,434)	4,050,355	109,349			(117,000)	4,042,704	22,098,653
7	Atal a Chynhwysiad	7,044,259	3,270	(2,967)	7,044,562	114,667		65,000	(237,000)	6,987,229	8,049,569
8	Diogelu a Chefnogi	10,755,831	(23,348)	(600,096)	10,132,387	183,336		1,315,000	(275,000)	11,355,723	11,896,324
9	Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant	5,474,509			5,474,509	96,523			(130,000)	5,441,032	8,778,511
10	Datblygu Economaidd	2,003,921			2,003,921	17,588			(46,000)	1,975,509	4,432,157
11	Cynllunio	1,340,935			1,340,935	16,121			(41,000)	1,316,056	1,520,890
12	Cludiant a Rheoli Asedau	8,865,240			8,865,240	141,604		100,000	(260,000)	8,846,844	2,936,972
13	Cyllid a Pherfformiad	4,963,774			4,963,774	40,860			(146,000)	4,858,634	0
14	Cyfundrefnau Gwybodaeth	2,670,988			2,670,988	29,497			(77,000)	2,623,485	0
15	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	1,974,003			1,974,003	13,784		50,000	(60,000)	1,977,787	0
16	Adnoddau Dynol	1,922,082			1,922,082	22,683		65,000	(57,000)	1,952,765	0
17	Trwsio a Chynnal	1,946,962			1,946,962	38,939		100,000	(73,000)	2,012,901	0
18	**Cyfanswm Clir Gwariant Gwasanaethau**	**176,429,597**	**1,135,131**	**(892,961)**	**176,671,767**	**3,167,113**	**1,870,528**	**2,655,000**	**(2,485,000)**	**181,879,408**	**194,690,440**
19	Corfforaethol a Chanolog	24,368,498			24,368,498	494,385	678,883	200,000	(325,000)	25,416,766	12,605,734
20	Newid Trawsffurfiol	0			0			1,000,000		1,000,000	1,000,000
21	**CYFANSWM GWARIANT CLIR**	**200,798,095**	**1,135,131**	**(892,961)**	**201,040,265**	**3,661,498**	**2,549,411**	**3,855,000**	**(2,810,000)**	**208,296,174**	**208,296,174**
	Ariannwyd trwy:										
	Grant Cynnal Refeniw	120,392,018									125,114,269
	Ardrethi Annomestig	35,604,797									37,293,748
	Grant Cytundeb Gwella	1,284,761									1,284,567
	Grant Amddifadedd	321,698									0
	Treth y Cyngor	43,194,821									44,603,590
	CYFANSWM INCWM	**200,798,095**									**208,296,174**
	Cyllideb Gwariant Clir	200,798,095									208,296,174
Llai:	Grant Cytundeb Gwella	(1,284,761)									(1,284,567)
	Grant Amddifadedd	(321,698)									0
	Rhyddhad Ardrethi Dewisoln	(80,000)									(80,000)
	Gofyniad Cyllideb	**199,111,636**									**206,931,607**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

GWYBODAETH AM DRETH Y CYNGOR 2010-11

Sylfaen Drethi	Cymuned	Treuliau Cyffredinol CBSW	Treuliau Arbennig CBSW	Archebiant Heddlu Gogledd Cymru	Archebiant Cymunedau	TOTAL
496	Abenbury	862.92		201.33	24.19	1,088.44
5,831	Acton	862.92	4.04	201.33	9.60	1,077.89
593	Bangor Is-y-coed	862.92		201.33	24.17	1,088.42
618	Bronington	862.92		201.33	12.14	1,076.39
2,593	Broughton	862.92		201.33	21.98	1,086.23
1,774	Brymbo	862.92		201.33	38.86	1,103.11
3,696	Parc Caia	862.92	4.04	201.33	56.00	1,124.29
2,169	Cefn	862.92		201.33	56.00	1,120.25
158	Ceiriog Ucha	862.92		201.33	6.33	1,070.58
1,648	Y Waun	862.92		201.33	53.50	1,117.75
1,683	Coedpoeth	862.92		201.33	82.85	1,147.10
215	Erbistog	862.92		201.33	5.12	1,069.37
1,367	Esclus	862.92		201.33	52.00	1,116.25
374	Glyntraean	862.92		201.33	34.67	1,098.92
2,586	Gresffordd	862.92		201.33	27.41	1,091.66
3,702	Gwersyllt	862.92		201.33	29.71	1,093.96
367	Hanmer	862.92		201.33	6.81	1,071.06
793	Holt	862.92		201.33	26.09	1,090.34
204	Isycoed	862.92		201.33	48.04	1,112.29
848	Llangollen Wledig	862.92		201.33	30.07	1,094.32
479	Llansanffraid Glyn Ceiriog	862.92		201.33	37.58	1,101.83
1,747	Llai	862.92		201.33	37.21	1,101.46
604	De Maelor	862.92		201.33	12.50	1,076.75
596	Marchwiail	862.92		201.33	32.72	1,096.97
701	Y Mwynglawdd	862.92		201.33	20.97	1,085.22
3,819	Offa	862.92	4.04	201.33	43.99	1,112.28
677	Owrtyn	862.92		201.33	48.51	1,112.76
1,104	Penycae	862.92		201.33	47.66	1,111.91
2,695	Rhosddu	862.92	4.04	201.33	8.16	1,076.45
3,241	Rhosllannerchrugog	862.92		201.33	57.77	1,122.02
1,720	Yr Orsedd	862.92		201.33	20.70	1,084.95
1,740	Rhiwabon	862.92		201.33	45.98	1,110.23
303	Sesswick	862.92		201.33	9.90	1,074.15
473	Willington / Gwyrddymp	862.92		201.33	11.42	1,075.67
51,614	**Cyfanswm / Cyfartaledd**	**862.92**	**1.26**	**201.33**	**35.04**	**1,100.55**

SYLWCH: Sylfaen Drethi = Cywerth â Haen “D” Trethdalwr llawn y Cyngor